


2018/19

Adroddiad yr Aelodau



Neges y Cadeirydd

Annwyl Aelodau,

Croeso i'r Adroddiad i Aelodau ar gyfer 2018/19

Rydym wedi parhau i weithio'n galed yn ystod y flwyddyn ddiwethaf ar ran yr aelodau, a byddwn yn rhannu rhai o'r uchafbwyntiau â chi yn yr adroddiad hwn. Yn ôl yn 2016, datblygwyd ein cynllun tair blynedd - 'Yfory'. Wrth i gyfnod Yfory ddirwyn i ben, rydym yn falch iawn o'r cynnydd sydd wedi cael ei wneud yn ystod ein tair blynedd gyntaf fel sefydliad cydfuddiannol. Gallwch ddarllen rhagor am yr hyn a gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf yn yr Adroddiad Blyneddol. Byddwn yn gweithio gyda'n haelodau i greu cynllun newydd, a bydd hwn yn cael ei lansio yn yr hydref.

Mae eich Corff Democrataidd wedi parhau i weithio er budd pennaf ei aelodau i wneud yn siŵr bod Cartrefi Cymoedd Merthyr yn ystyried ei weledigaeth a'i werthoedd wrth edrych i'r dyfodol. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, rydym

wedi edrych yn ôl ar yr hyn roeddem wedi dweud y byddem yn ei wneud, fel y nodwyd yn 'Yfory', i weld pa mor llwyddiannus oeddem ni. Rydym wedi bod yn fodlon iawn â'r hyn a gyflawnwyd, ond yn cydnabod bod gwaith eto i'w wneud mewn rhai meysydd. Bydd rhywfaint o'r gwaith hwn yn cael ei drosglwyddo i'r cyfnodau nesaf yn hanes ein sefydliad cydfuddiannol.

Rydym yn gwneud yn siŵr ein bod yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am yr holl ffactorau allanol sy'n effeithio arnom, ac ar yr un pryd yn parhau i dyfu gyda'n gwerthoedd cadarn, gyda'r nod o fod yn landlord ac yn gyflogwr gwerth chweil. Bydd popeth rydym wedi'i ddysgu yn cael ei gynnwys yn y weledigaeth ar gyfer y 3 blynedd nesaf, ochr yn ochr ag adborth ein haelodau. Ein nod yw parhau i weithio'n galed i fod yn landlord ac yn gyflogwr gwych, a dangos nad oes dim byd tebyg i weithio ar y cyd i sicrhau'r gorau i gymunedau.



Nat
α

Natalie Warner
Cadeirydd y Corff Democrataidd

Cyflwyniad

Croeso i'r trydydd 'Adroddiad i Aelodau' – adroddiad gennym ni, y Corff Democrataidd, i chi.

Yn yr adroddiad hwn, cewch hanes ein gweithgareddau yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf (rhwng Ebrill 2018 a Mawrth 2019) – beth rydym wedi'i gyflawni, a pha benderfyniadau rydym wedi'u gwneud ac wedi dylanwadu arnynt ar ran aelodau Cartrefi Cymoedd Merthyr. Mae cydweithio ein gwneud yn gryfach, ac mae'r adroddiad hwn yn dangos beth sy'n gallu digwydd pan fydd aelodau'n cael 'lleisio'u barn'.

Mae bron dair blynedd wedi mynd heibio erbyn ers i Cartrefi Cymoedd Merthyr ddod yn gymdeithas dai gydfuddiannol sy'n eiddo i'w thenantiaid a'i gweithwyr – y gyntaf yng Nghymru. Mae ein sefydliad cydfuddiannol yn eiddo i'r aelodau o blith gweithwyr a thenantiaid, ac mae'r aelodau hyn yn ganolog wrth wneud penderfyniadau. Mae'r Corff Democrataidd yma i weithredu ar eich buddiannau chi ac ar fuddiannau ehangach ein cymunedau ym Merthyr Tudful. Rydym yn eich cynrychioli chi.

Mae gan y Corff Democrataidd nifer o swyddogaethau a chyfrifoldebau pwysig:

Swyddogaethau Allweddol

Penodi (a diswyddo) Cyfarwyddwyr Anweithredol Bwrdd Cartrefi Cymoedd Merthyr

Cymeradwyo penodiad y Prif Weithredwr (gan y Bwrdd)

Gweithio gyda'r Bwrdd a'r Prif Weithredwr i wneud yn siŵr bod y sefydliad cydfuddiannol yn cael ei reoli'n dda

Gweithio gyda'r Bwrdd a'r Prif Weithredwr i lunio cynllun busnes y sefydliad cydfuddiannol, gan gynnwys pennu'r cyfeiriad strategol a chymeradwyo'r fframwaith polisi

Cymeradwyo'r rhaglen archwilio mewnol, a monitro perfformiad y sefydliad

Sefydlu Strategaeth Aelodaeth a monitro'i chynnydd

Cwrdd â'r Corff Democrataidd

Mae'r Corff Democrataidd yn cynnwys un ar ddeg o gynrychiolwyr etholedig o blith tenantiaid (wedi cael eu hethol gan yr aelodau sy'n denantiaid), wyth o gynrychiolwyr etholedig o blith gweithwyr (wedi cael eu hethol gan yr aelodau sy'n weithwyr) a dau gynrychiolydd o'r Awdurdod Lleol (un Swyddog ac un Cynghorydd).

Dyma bwt o wybodaeth am bob un ohonom:



Natalie Warner
Cadeirydd (Cynrychiolydd o blith Gweithwyr)

Cychwynnodd Natalie ar ei gyrfa gyda Cartrefi Cymoedd Merthyr yn yr adran TGCh, cyn

ymuno â'r Tîm Ymgysylltu a Pherchnogaeth yn 2016 fel Swyddog Cyfathrebu Digidol. Mae Natalie wedi bod yn aelod o'r Corff Democrataidd ers 2016, gan fod yn Is-gadeirydd am bron i ddwy flynedd cyn camu i rôl y Cadeirydd yn 2018.

Mae Natalie yn byw ym Merthyr Tudful gyda'i theulu. Mae hi'n falch iawn o ddweud ei bod wedi byw ym Merthyr gydol ei hoes. Mae'r gymuned yn bwysig i Natalie, ac mae hi'n awyddus iawn i ddatblygu gwasanaethau ar gyfer tenantiaid a thrigolion ar draws y fwrdeistref. Mae hi'n credu bod cael prosiectau neu ganolfannau sy'n dod â phobl at ei gilydd yn hanfodol ar gyfer ein tenantiaid a'r gymuned ehangach. Mae Natalie wedi gwneud llawer o waith gwirfoddol. Mae hi wedi gweithio yn un o glybiau ieuencid mwyaf Merthyr, Clwb Ieuencid Forsythia, wedi iddi hithau fod yn aelod o'r clwb pan oedd hi'n ifanc, a gweld ei fanteision â'i llygaid ei hun.

Bu'n bleser gan Natalie weld y cynnydd y mae'r Corff Democrataidd wedi'i wneud, a sut mae wedi mynd o nerth i nerth. Teimla Natalie ei bod hithau wedi magu hyder ac wedi aeddfedu yn ei rôl, gan ddysgu sut i gadeirio'r corff gyda help a chefnogaeth y cynrychiolwyr eraill.



Nigel Phillips-Gunter
Is-gadeirydd (Cynrychiolydd o blith Tenantiaid)

Magwyd ac addysgwyd Nigel ym Merthyr Tudful. Graddiodd am y tro cyntaf gyda B.Ed.

(Anrhydedd) yng Nghaerdydd, ond yn nes ymlaen yn ei yrfa aeth Nigel ati i ail-hyfforddi i fod yn Ddadansoddwr Busnes. Mae bod yn rhan o'r Corff Democrataidd a fforymau a grwpiau eraill wedi galluogi Nigel i feithrin sgiliau o bob math, ac mae'n cael llawer iawn o bleser yn gweithio i wella pethau i denantiaid a gweithwyr.

Yn ei amser "rhydd", bydd Nigel yn canu gyda Chôr Eglwys Dewi Sant ym Merthyr. Mae'n aelod o Dîm y Caplaniaid, ef yw Ysgrifennydd y Cyngor Plwyf Eglwysig, ac mae'n un o gynrychiolwyr y Ddeoniaeth a'r Esgobaeth.

Cynrychiolwyr o blith Tenantiaid



Frances Bevan
Mae Fran wedi bod yn gysylltiedig â Cartrefi Cymoedd Merthyr ers iddo gael ei sefydlu yn 2009. Bu'n Gadeirydd ar y Corff Democrataidd am bron i

ddwy flynedd, ar ôl bod yn Is-gadeirydd. Cyn hynny, bu Fran yn gwasanaethu ar y Bwrdd am nifer o flynyddoedd fel aelod etholedig o blith tenantiaid ac fel Is-gadeirydd. Bydd Fran yn siarad yn gyson am faterion sy'n berthnasol i denantiaid yn y sector, ac mae hi'n teimlo'n angerddol ynghylch lledaenu'r gair am bwysigrwydd rhoi'r gallu i denantiaid a staff gymryd rhan a chael eu cynnwys.

Mae Frances wedi gweithio ym maes nyrsio cyffredinol a seiciatrïg, gyda'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol ac yn y sector preifat. Mae hi'n byw yn Nhrefechan. Mae hi'n fam ac yn fam-gu, ac mae wrth ei bodd yn treulio amser gyda'i merch a'r plant. Yn ei hamser rhydd, bydd yn mwynhau gwylïo'i hŵyr yn chwarae rygbi, ac mae theatr gerdd yn rhoi llawer iawn o bleser iddi hefyd.



Gaynor Bradley
Mae Gaynor yn fam i bedwar o fechgyn ac mae hi'n Gyfarwyddwr ar fwrdd elusen leol. Bydd Gaynor yn gwirfoddoli yn y gymuned,

ac mae ganddi lawer o ddiddordeb mewn cynrychiadau theatr a drama. Aeth Gaynor yn ôl i'r coleg i gwblhau diploma BTEC ym maes systemau busnes a'r rhyngwrwyd. Yn ei hamser rhydd, fe fydd hi'n gwneud cacennau ar gyfer achlysuron arbennig ac yn gwneud ei chardiau cyfarch ei hun.



Marlene Burns
A hithau wedi cael ei geni a'i magu ym Merthyr Tudful, mae Marlene wedi gweithio mewn sawl swydd yn y dref,

gan gynnwys i'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol. Ers iddi ymddeol, mae hi wedi gwneud llawer o waith gwirfoddol gydag elusennau, gan gynnwys Undeb Credyd Merthyr Tudful, fel un o'r aelodau a'i sefydlodd.

Mae Marlene wedi bod yn Aelod o Fwrdd Cymdeithas Tai Merthyr Tudful a Cartrefi Cymoedd Merthyr fel tenant. Mae ganddi lawer iawn o brofiad ym maes tai, sy'n fuddiol iawn i'r Corff Democrataidd, ac mae hi'n mwynhau gweld faint o ddylanwad mae'r aelodau'n ei gael.



Vivian Evans
Mae Vivian yn byw yn rhan isaf y fwrdeistref ym Mynwent y Crynwyr, ac mae wedi bod yn denant i Cartrefi Cymoedd Merthyr ers deng mlynedd.

Er bod Vivian yn aelod eithaf newydd o'r Corff Democrataidd, ar ôl ymuno yn 2017, mae'n gweld yn barod bod siarad yn iawn am bethau, a rhoi cyfle i bob cynrychiolydd ddweud ei ddweud, yn ffordd wych o ddatrys problemau a meddwl am syniadau newydd.



Paul Franklin
Mae Paul wedi bod yn denant i Cartrefi Cymoedd Merthyr ers i'r cwmni gael ei sefydlu yn 2009. Mae ganddo brofiad helaeth o weithio yn y sector

cyhoeddus, gan gynnwys gyda Chyngor Dinas Birmingham a Choleg y Cymoedd, fel Uwch Swyddog Cyllid. Mae gan Paul brofiad blaenorol o eistedd ar fwrdd Cymdeithas Denantiaid, a hynny pan oedd yn byw yn ninas Birmingham. Mae'n gobeithio'n fawr y bydd ei brofiadau o fudd wrth wneud penderfyniadau ar ran aelodau.

Mae Paul wedi ymddeol yn rhannol erbyn hyn, ac mae'n awyddus i roi rhywbeth yn ôl i'r gymuned drwy gynrychioli ei gyd-denantiaid ar y Corff Democrataidd.

Cwrdd â'r Corff Democrataidd



Annette Longbottom

Daw Annette o Romsgate, Caint, yn wreiddiol, ond mae hi wedi bod yn denant i Cartrefi Cymoedd Merthyr ers dros wyth mlynedd –

ac mae hi wrth ei bodd yn byw ym Merthyr Tudful. Y materion pwysicaf i Annette yw adeiladu tai newydd, gan wneud yn siŵr bod cartrefi presennol yn cael eu cynnal a'u cadw'n briodol ar yr un pryd. Mae cymuned yn rhywbeth sy'n agos iawn at galon Annette. Gwasanaethu ar y Corff Democrataidd yw ei ffordd hi o roi rhywbeth yn ôl i'r sefydliad ac i'r gymuned, ac mae hi'n mwynhau bod yn rhan go iawn o'r broses o wneud penderfyniadau sy'n effeithio ar denantiaid.

Mae gan Annette chwech o blant ac 14 o wyrion a wyresau.



Joan Marshall

Ganed Joan ym Merthyr a bu'n ddisgybl yn Ysgol Uwchradd Fodern Troedyrhiw. Symudodd Joan o Ferthyr, a phriodi

a chael tri o blant, cyn dychwelyd i Ferthyr Tudful yn 2014. Mae gan Joan Radd er Anrhydedd mewn Polisi Cymdeithasol, gydag arbenigedd mewn gwyredigaeth ochr yn ochr â datblygiadau cymunedol a threfol, yn ogystal â TAR mewn addysg bellach. Mae gwaith cyflogedig a gwaith gwirfoddol Joan wastad wedi ymwneud â materion sy'n effeithio ar y sector cyhoeddus, ac yn ei hamser hamdden mae hi'n mwynhau gweithgareddau creadigol.



Tracey Powell

Gwraig tŷ a mam i bump o blant yw Tracey. Mae hi'n dod o Abertawe yn wreiddiol, ond mae hi wedi byw ym Merthyr Tudful ers 1991. Mae Tracey

wedi cyfrannu llawer iawn at fywyd yr ysgol leol ers 20 mlynedd a mwy, gan fod yn rhiant-lywodraethwr ac yn aelod o'r gymdeithas rhieni ac athrawon.

Mae Tracey wedi bod yn gynrychiolydd gweithgar o blith tenantiaid ers dros naw mlynedd, gan eistedd ar sawl panel a fforwm, ac mae hi wedi bod yn denant sy'n aelod o'r Bwrdd ers llawer o flynyddoedd. Mae Tracey wedi bod yn gynrychiolydd ar y Corff Democrataidd ers 2016, ac roedd hi'n falch iawn o gael ei hethol yn ôl yn etholiadau 2017. Rôl Tracey yw cynrychioli tenantiaid a gwneud yn siŵr bod ganddynt lais go iawn i roi gwybod am y pethau sy'n bwysig iddyn nhw.



Olga Thomas

Mae Olga a'i gŵr yn byw yn Georgetown, Merthyr Tudful, ers 2014.

Yn ogystal â bod yn rhan o'r Corff Democrataidd, bydd Olga yn helpu dipyn ar Cartrefi Cymoedd Merthyr yn ei hamser rhydd, gan wasanaethu ar ein Fforwm Cyfranogaeth Preswylwyr a'r Panel Grantiau. Mae Olga yn aelod gwirfoddol o Fanc Bwyd Georgetown hefyd.

Cynrychiolwyr o blith Gweithwyr



Alex Bartlett

Symudodd Alex i Ferthyr Tudful o'i dref enedigol, Aberdaugleddau, yn 2016 i ddod i weithio i Cartrefi Cymoedd Merthyr fel

Swyddog Datblygu a Chymorth Seilwaith. Yn ddiweddar, mae wedi newid ei swydd, ac erbyn hyn ef yw Swyddog Perfformiad y sefydliad. Roedd Alex yn awyddus i ymuno â'r Corff Democrataidd er mwyn cyfrannu at wella'r sefydliad cydfuddiannol a'r gwasanaethau a ddarparwn i'n cymunedau.

Mae gan Alex lawer iawn o brofiad o wneud swyddi gwirfoddol, gan gynnig ei sgiliau gweinyddol a TGCh, gan fod yn Ysgrifennydd y gangen leol o'r Llenng Brydeinig Frenhinol. Ar hyn o bryd mae Alex yn byw yn un o dai Cwmni Tai Cydweithredol Taf Fechan, y cynllun tai cyntaf o'i fath ym Merthyr Tudful.



Kirsty Beattie

Kirsty yw Swyddog Arweiniol Credyd Cynhwysol Tîm Incwm Cartrefi Cymoedd Merthyr, ac mae'n gweithio i'r sefydliad ers dros chwe

blynedd. Budd pennaf y tenantiaid sydd bwysicaf i Kirsty bob amser, ac mae gweithio yn y rheng flaen yn ymweld â thenantiaid yn gyson yn golygu bod gan Kirsty ddealltwriaeth dda o anghenion ein tenantiaid. Credyd Cynhwysol yw un o'r newidiadau mwyaf i effeithio ar Cartrefi Cymoedd Merthyr yn ystod y blynyddoedd diwethaf, ac mae gwybodaeth a phrofiad Kirsty yn fuddiol i'r Corff Democrataidd ac yn ei helpu i sicrhau newidiadau sy'n cefnogi'r tenantiaid. Mae Kirsty yn byw yn Aberdâr. Pan nad yw hi'n gweithio mae hi wrth ei bodd yn gwersylla ac yn cerdded mynyddoedd – yr Wyddfa yw ei ffefryn!



Kristian Cole

Mae Kristian yn gweithio yn adran TGCh Cartrefi Cymoedd Merthyr, ac wedi bod yn gweithio yma ers wyth mlynedd. Mae wedi

treulio'r tair blynedd diwethaf yn datblygu system Rheoli Cysylltiadau Cwsmer bwrpasol (system dai newydd Cartrefi Cymoedd Merthyr). Drwy ddatblygu'r system hon, mae Kris wedi cael gwybodaeth gyffredinol am y rhan fwyaf o brosesau a ffyrdd o weithio'r timau Tai, Dyraniadau, Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Gwasanaethau i Gwsmeriaid, Gwasanaethau Cymorth ac Incwm – felly mae'n deall y busnes drwyddo draw!

Mae Kris yn byw yn Hirwaun gyda'i wraig a'u tri phlentyn.



Mark Davies

Mae rôl Mark ar ein Tîm Cynnal a Chadw Tiroedd ac Amgylcheddol yn golygu bod ganddo ddealltwriaeth dda o beth sy'n digwydd yn

ein cymunedau lleol, a beth sy'n berthnasol i denantiaid. Mae Mark yn teimlo'n gryf iawn am weithwyr a thenantiaid yn defnyddio'u hawliau fel aelodau i roi newidiadau ar waith yn y sefydliad.

Mae Mark wedi defnyddio'r sgiliau y mae wedi'u dysgu yn ystod ei yrfa (gan gynnwys ei sgiliau hunangyflogedig a rheoli siopau) i sefydlu grŵp cymunedol gwirfoddol llwyddiannus yn ei bentref lleol.

Cwrdd â'r Corff Democrataidd



Julie McCarthy
Ar hyn o bryd, mae Julie yn gweithio fel Arweinydd Tîm Llesiant y Gymuned, gan oruchwylio'r Tîmau Datblygu Cymunedol a Byw yn y Gymuned, yn ogystal â'r Gwasanaeth Cefnogi Fel Bo'r Angen (sy'n cynnwys tai dros dro a digartrefedd).

Mae Julie wedi gweithio ym maes tai ers deunaw mlynedd a mwy, ac mae hi wedi cael profiad gwerthfawr yn gweithio mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd sy'n ymwneud â thai. Mae gan Julie BSc mewn Ymarfer a Pholisïau Tai, ac mae hi wedi manteisio ar amrywiaeth o gyfleoedd hyfforddi a datblygu ar hyd y blynyddoedd er mwyn gwneud yn siŵr bod y wybodaeth ddiweddaraf ganddi am newidiadau o ran polisïau a deddfwriaeth. Mae Julie wedi byw a gweithio ym Merthyr Tudful gydol ei hoes, ac mae ganddi ddealltwriaeth a gwybodaeth ragorol am gymunedau lleol.

Mae gan Julie ddwy ferch a dwy wyres.



Ceri Price
Mae Ceri yn Swyddog Cyswllt Tenantiaid yn y Tîm Cartrefi ac Eiddo. Mae Ceri wedi bod gyda'r sefydliad ers y trosglwyddo yn 2009, a chyn hynny roedd hi'n cael ei chyflogi gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful. Mae ganddi dros 13 mlynedd o brofiad o weithio yn y sector tai. Mae Ceri yn mwynhau bod yn aelod o'r Corff Democrataidd ac yn teimlo ei bod yn bwysig iawn bod y tenantiaid a'r gweithwyr yn cael cyfle i gyfrannu at benderfyniadau a dylanwadu arnynt.

Magwyd ac addysgwyd Ceri ym Merthyr Tudful. Mae ganddi fywyd prysur iawn y tu allan i oriau gwaith. Mae ganddi bedwar o blant – merch 13 oed a thripled 10 oed (dau fachgen ac un ferch). Mae Ceri yn hoffi mynd ar wyliau, cymdeithasu a chadw'n heini, ac mae hi wedi bod yn rhan o sawl digwyddiad codi arian i elusennau ar draws Merthyr. Mae Ceri yn byw gyda'i phlant yn Heolgerrig, Merthyr Tudful.



Stephen Puddy
Mae Stephen yn gweithio i Cartrefi Cymoedd Merthyr ers y cychwyn, ar ôl symud at y cwmni o'r Awdurdod Lleol yn 2009. Mae'n gweithio fel Rheolwr Caffael ac mae'n aelod o'r Sefydliad Siartredig Prynu a Chyflenwi. Mae Stephen yn eistedd ar nifer o gyrff allanol sy'n rhoi cyngor am gaffael, gan gynnwys Cynghrair Caffael Cymru, Procurement for Housing a Consortium Procurement.

Mae Stephen yn aelod o'r Pwyllgor Archwilio a'r Panel Cwynion hefyd. Mae'r swyddogaethau hyn yn ei alluogi i gael gwell dealltwriaeth o'r risgiau a'r cymhlethdodau ariannol sydd ynghlwm wrth redeg cymdeithas dai brysur, ac i werthfawrogi'r gwaith caled y mae ein sefydliad yn ei wneud i sicrhau bod tenantiaid yn ganolog i bopeth a wnawn. Mae Stephen yn eistedd ar Banel Cydraddoldeb ac Amrywiaeth y sefydliad hefyd.

Magwyd ac addysgwyd Stephen ym Merthyr Tudful, ac mae'n byw yng Nghaerdydd ar hyn o bryd. Mae gweithio gyda thenantiaid a gweithwyr ar y Corff Democrataidd, a gweld â'i lygaid ei hun sut maent yn gallu cael dylanwad go iawn ar gyfeiriad y sefydliad ar gyfer y dyfodol, yn rhoi llawer iawn o foddhad iddo.

Cynrychiolwyr o'r Awdurdod Lleol

Swyddog – Swydd Wag



Y Cynghorydd Jeremy Davies
Cafodd Jeremy ei ethol yn Gynghorydd Lleol yn Ward y Gurnos yn 2018. Cafodd ei eni a'i fagu ym Merthyr Tudful, ac mae'n byw yn y Gurnos erbyn hyn. Mae Jeremy yn weithgar iawn yn y gymuned, ac mae'n ymwneud â Phrosiect Dynion y Gurnos – prosiect a sefydlwyd yn 2015 i roi cyfle i grŵp o ddynion a oedd wedi bod yn ddi-waith ers tro yn y Gurnos i ddod at ei gilydd a chymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau er mwyn gwella'r gymuned, dysgu pethau newydd a datblygu eu sgiliau. Jeremy yw Cadeirydd Grŵp Gweithredu Ardal Gymunedol y Gurnos.



Ymddiswyddiadau yn 2018/19

Kim Ford	Cynrychiolydd o blith Tenantiaid	Medi 2018
Cllr Chris Davies	Cynrychiolydd o'r Awdurdod Lleol	Hydref 2018
Julian Pike	Cynrychiolydd o'r Awdurdod Lleol	Tachwedd 2018
Paula Hamer	Cynrychiolydd o blith Tenantiaid	Chwefror 2019

Ein Prif Weithgareddau


Y Prif Benodiadau Prif Weithredwr

Yn ystod tymor yr hydref 2018, fe wnaethom helpu i greu proses recriwtio er mwyn dod o hyd i Brif Weithredwr newydd. Gan mai sefydliad cydfuddiannol ydym ni, roeddem yn awyddus i gael proses mor gynhwysol â phosibl – proses a fyddai’n galluogi ein haelodau i gael llais ac i fod yn rhan o’r penderfyniad ynghylch pwy fyddai’n cael ei benodi i’r swydd. Ffurfiodd y Bwrdd a’r Corff Democrataidd is-grŵp, ac aethom ati i gynllunio proses addas ar gyfer ein sefydliad ni.

Penderfynodd y grŵp y byddai cynnal dau gyfweiliad yn syniad da, a’r rheini’n gyfwerth â’i gilydd – cyfweiliad technegol (i wneud yn siŵr bod gan yr ymgeiswyr y sgiliau, y wybodaeth a’r arbenigedd priodol) a chyfweiliad gwerthoedd (i wneud yn siŵr bod gan yr ymgeiswyr y gwerthoedd a’r credoau priodol ar gyfer ein sefydliad cydfuddiannol). Roedd y cyfweiliadau’n cyfrif am 80% o’r sgôr terfynol. Ar gyfer yr 20% arall, roedd y pedwar ymgeisydd terfynol wedi recordio cyflwyniad byr, a rhoddwyd gwahoddiad i bob un o’r aelodau edrych ar y cyflwyniadau a’u sgorio. Roeddem am wneud yn siŵr bod ein haelodau’n cael lleisio’u barn go iawn, a bod eu pleidlais wir yn cyfrif.

Mae’n bleser gennym ddweud bod dros 120 o aelodau wedi rhoi o’u hamser i fod yn rhan o’r broses hon. Roedd rhoi cyfle i’r aelodau bleidleisio dros bwy roedden nhw am ei weld yn arwain ein sefydliad cydfuddiannol yn enghraifft o broses ddemocrataidd yng ngwir ystyr y gair. Cawsom adborth ardderchog gan yr aelodau fu’n cymryd rhan, ac roedden yn awyddus i gael mwy o ddylanwad ar benodiadau pwysig yn y dyfodol. Yn sgil hyn, rydym wedi ymrwymo i sicrhau y bydd y Corff Democrataidd yn cael ei gynnwys ym mhob penodiad ar gyfer uwch swyddi Cartrefi Cymoedd Merthyr – gan gynnwys swyddi Penaethiaid y Gwasanaeth, y Cyfarwyddwyr a’r Prif Weithredwr.

Pleser o’r mwyaf oedd cael croesawu Michelle Reid fel Prif Weithredwr ar y 1af o Ebrill 2019. Mae gan Michelle gyfoeth o wybodaeth a phrofiadau ym maes tai a’r gwasanaethau cymorth cysylltiedig. Rydym yn edrych ymlaen at y bennod nesaf gyda Michelle yn Brif Weithredwr, ond hoffem achub ar y cyfle hwn i ddiolch i Mike Owen am ei ymroddiad, ei weledigaeth a’i gefnogaeth wrth ddatblygu ein sefydliad cydfuddiannol a’n cymunedau er gwell. Roeddem yn falch iawn o weld Mike yn derbyn y wobwr ‘Cyfraniad Eithriadol at Dai’ yng Ngwobrau Tai Cymru y Sefydliad Tai Siartredig ym mis Tachwedd 2018. Roedd y wobwr yn haeddiannol iawn! Pob dymuniad da i Mike ar ei ymddeoliad.



Cyfarwyddwyr Anweithredol

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi penodi dau Gyfarwyddwr Anweithredol i'r Bwrdd, a phenodwyd y ddau yn dilyn hysbyseb agored. Wrth gynnal y cyfweiliadau, yn ogystal â gwneud yn siŵr bod gan yr unigolion y sgiliau a'r arbenigedd priodol, bydd y panel yn sicrhau bod y gwerthoedd a'r credoau priodol ganddynt hefyd i gyd-fynd â'n sefydliad cydfuddiannol. Cafodd yr ymgeiswyr llwyddiannus, Chris Bolton a Calvin Jones, eu hargymell i'r Bwrdd ar gyfer eu penodi, ac ymunodd y ddau â'r Bwrdd ym mis Mawrth 2019.

Chris Bolton

Chris yw Rheolwr Cyfnewid Arfer Da Swyddfa Archwilio Cymru, ac mae'n gyfrifol am ddatblygu prosesau Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer rhannu arferion da ar draws gwasanaethau cyhoeddus, a rhoi'r prosesau hynny ar waith. Yn 2018, derbyniodd Chris Gymrodoriaeth Deithio Winston Churchill i astudio sefydliadau cydweithredol mawr yng Ngwlad y Basg (Gogledd Ddwyrain Sbaen) ac yn New England (UDA). Mae Chris wir yn credu bod gweithgarwch economaidd sy'n cael ei reoli'n ddemocrataidd gan gymunedau a chwmnïau cydweithredol a chydfuddiannol, ac sydd wedi'i wreiddio yn hynny, yn hanfodol i ddyfodol Cymru.

Ganed Chris yn Nelson, ac mae wedi cael cyswllt â Merthyr Tudful drwy gydol ei oes.

Calvin Jones

Mae Calvin Jones yn Athro Economeg ac yn Ddirprwy Ddeon yn Ysgol Fusnes Caerdydd, Prifysgol Caerdydd, ble mae'n arwain strategaeth unigryw yr Ysgol ar Werthoedd Cyhoeddus. Mae Calvin wedi cael ei gyflogi gan y Brifysgol ers 1998, ac mae ganddo PhD ym maes Economeg Twristiaeth a Digwyddiadau Mawr yn y Byd Chwaraeon. Mae'n arbenigo yn y gwaith o ddadansoddi economi Cymru, ac mae ei ddiddordeb yn y Cymoedd yn golygu bod ganddo wybodaeth gyd-destunol ardderchog ynglŷn â sut mae Cymru'n 'gweithio', a'r materion penodol sy'n hybu neu'n lliniaru llwyddiant yng nghymunedau'r Cymoedd.

Mae Calvin wedi rhoi cynnig ar fod yn ganwr roc ac yn nofelydd – yn 2012 ysgrifennodd gomedi dywyll o'r enw 'A Million Years of Sunshine'.

Hyd yn hyn, ers i ni ddod yn sefydliad cydfuddiannol yn 2016, mae'r Corff Democrataidd wedi penodi chwech o'r wyth Cyfarwyddwyr Anweithredol i'r Bwrdd. Mae'r penodiadau hyn wedi bod yn llwyddiannus, a gan fod y mwyafrif o aelodau'r Bwrdd (75%) wedi cael eu penodi gan y Corff Democrataidd, mae hyn yn golygu bod yr atebolrwydd ar ysgwyddau'r tenantiaid a'r gweithwyr sydd wedi penodi'r aelodau hyn. Mae ein gwerthoedd cydweithredol yn cael eu rhoi ar waith gan y Bwrdd, a bydd ein Cadeirydd yn cadw golwg ar hyn ym mhob cyfarfod. Mae'r penderfyniadau sy'n cael eu gwneud a'r cydweithio rhwng y Bwrdd a'r Corff Democrataidd yn profi bod y dull hwn o weithio yn effeithiol.



Mae
75%
o aelodau'r
Bwrdd wedi
cael eu penodi
gan y Corff
Democrataidd

Yfory – ein cynllun ar gyfer y dyfodol

Yn ôl yn 2016, aethom ati i weithio ar weledigaeth newydd ar gyfer Cartrefi Cymoedd Merthyr – Yfory. Mae Yfory yn nodi sut rydym am siapio ein dyfodol gyda'n gilydd er mwyn ei wella. Mae'n ddogfen uchelgeisiol a dewr, sy'n cynnwys sawl nod ac amcan, ond rydym ni'n credu ei bod yn bosibl, a'i bod yn adeiladu ar y gwaith da mae Cartrefi Cymoedd Merthyr wedi'i wneud dros y blynyddoedd diwethaf.

Mae gan y Corff Democrataidd y grym i ddal y Bwrdd yn atebol. Er ein bod yn ffyddiog y bydd y Bwrdd yn cyflawni'r amcanion yn Yfory, rydym wedi parhau i fonitro perfformiad y sefydliad a'i gynnydd wrth gyflawni'r targedau perfformiad ac amcanion y 'Cynllun Blynyddol'. Cynhaliwyd adolygiad llawn o'r meysydd lle nad oedd yr amcanion wedi cael

eu cyflawni'n llwyr, ac edrychwyd ar feysydd a oedd o ddiddordeb arbennig i ni a'r aelodau a gynrychiolwn, gan gynnwys gwaith atgyweirio a chynnal a chadw; tai gwag; rhent ac incwm a rheoli tai.

Gan fod cyfnod 'Yfory' bron â dod i ben, rydym eisoes yn dechrau meddwl am sefydlu cynllun newydd ar gyfer y tair blynedd nesaf. Rydym wedi ymrwymo i ofyn i'n haelodau ymuno â ni mewn cyfres o grwpiau ffocws, ac i gymryd rhan mewn arolygon, i wneud yn siŵr ein bod yn gwrando ar ein haelodau pan ddaw'n bryd penderfynu ar ein blaenoriaethau ar gyfer y dyfodol. Mae'n bwysig nad ydym yn cymryd dim byd yn ganiataol, a'n bod yn gofyn bob tro! Bydd y cynllun nesaf yn cael ei drafod' yng Nghyfarfod Blynyddol yr Aelodau yn ystod mis Medi 2019.

Llywodraethu

Roedd sefydlu ein strwythur newydd yn 2016/17 yn golygu llawer iawn o waith, felly bron i dair blynedd yn ddiweddarach, teimlwn ei bod yn syniad da achub ar y cyfle i gymryd cam yn ôl ac edrych ar ein perfformiad a sut rydym yn cynrychioli ein haelodau. Y man cychwyn ar gyfer hyn oedd cynnal arolwg ar ddechrau'r flwyddyn i weld sut rydym yn gweithio ac i nodi meysydd y gellir eu gwella. Rydym wedi rhoi rhai newidiadau ar waith i wneud ein cyfarfodydd yn fwy effeithiol ac effeithlon. Rydym hefyd wedi cynnal cyfres o arolygon i weld sut rydym yn perfformio fel unigolion ac fel corff. Canlyniad hyn yw cynllun hyfforddi a datblygu a fydd yn cael ei roi ar waith yn 2019/20.

Pwrpas archwiliad mewnol yw adolygu ein trefniadau ar gyfer rheoli gwaith llywodraethu a risgiau, a gwneud yn siŵr bod ein prosesau

a'n polisiâu mewnol yn effeithiol. Bydd yr adolygiadau annibynnol hyn yn helpu i ddiogelu ein sefydliad cydfuddiannol, gan ein helpu i weld a ydym yn cydymffurfio â'r gyfraith a'r arferion gorau, ac yn darparu gwasanaethau da. Ar ôl edrych ar adroddiadau'r archwiliad ar gyfer y flwyddyn ariannol ddiwethaf (2018/19), lluniwyd cynllun ar gyfer y flwyddyn nesaf, gan wneud yn siŵr bod pob un o'r prif risgiau'n cael sylw. Mae gennym gynrychiolwyr ar y Pwyllgor Archwilio hefyd. Ochr yn ochr â chynrychiolwyr y Bwrdd, mae'r cynrychiolwyr hyn yn gyfrifol am adolygu a monitro archwiliadau a risgiau.

Dyma ni'n manteisio ar y cyfle i gynnal adolygiad ar y cynnydd rydym wedi'i wneud wrth gyflawni ein Strategaeth Aelodaeth. Er bod y canfyddiadau'n gadarnhaol, rydym wedi cael rhywbeth i feddwl amdano pan fyddwn yn llunio ein strategaeth newydd y flwyddyn nesaf.



Gosod rhenti

Y llynedd, buom yn gweithio gyda'r Bwrdd i feddwl am system newydd ar gyfer gosod rhenti – system a fyddai'n seiliedig ar degwch a fforddiadwyedd. Mae'n bwysig i ni wneud yn siŵr bod lefel y rhenti'n briodol er mwyn i ni allu dal ati i ddarparu gwasanaethau. Yn sgil hyn, rhoddwyd polisi rhenti fforddiadwy newydd ar waith, sef y 'Rhent Byw'. Defnyddiwyd ein model i osod ein rhenti ar 28% o'r cyflog cyfartalog ym Merthyr Tudful. Ar ôl profi hyn yn ariannol yn erbyn incwm gwirioneddol cartrefi, gallwn roi sicrwydd i'n haelodau fod y system yn gweithio.

Llywodraeth Cymru sy'n pennu'r polisi ar gyfer rhenti yng Nghymru ar gyfer landlordiaid cymdeithasol fel Cartrefi Cymoedd Merthyr ac Awdurdodau Lleol. Diben hyn yw sicrhau bod llai o wahaniaeth yn lefel y rhenti. Roeddem yn siomedig braidd gyda'r Setliad Rhenti a gawsom ym mis Rhagfyr 2018 oherwydd roedd arweiniad Llywodraeth Cymru ar setliadau yn peri risg i'n polisi 'Rhenti Byw' ac i'n cyllidebau. Felly ym mis Ionawr 2019, fe wnaethom benderfynu ysgrifennu at Lywodraeth Cymru i apelio, ac i ofyn am gael ein heithrio, er mwyn gallu parhau i osod rhenti rhesymol a fforddiadwy i'n tenantiaid.

Rydym yn falch iawn o ddweud ein bod wedi cael 'goddefeb' (ystyriaeth arbennig) sy'n ein galluogi i sicrhau rhenti tecach i'n tenantiaid. Fe wnaethom hefyd gyflwyno astudiaeth achos ar ein harferion gosod rhenti teg ar

gyfer adolygiad cenedlaethol (yr Adolygiad o Dai Fforddiadwy), a fydd yn cael ei gyhoeddi yn ystod haf 2019. Nid yn unig rydym ni'n dylanwadu ar benderfyniadau o fewn Cartrefi Cymoedd Merthyr, rydym yn defnyddio ein dylanwad ar gyfer polisiau cenedlaethol hefyd.

Gwerth am Arian

Mae sicrhau 'Gwerth am Arian' yn bwysig iawn i ni, ac rydym yn arwain ar hyn ar ran ein haelodau. Y llynedd, fe wnaethom gyflwyno strategaeth o'r enw 'Yfory Cryf', ac rydym wedi bod yn gweithio drwy'r cynllun gweithredu eleni.

Roeddem yn awyddus i ddod o hyd i ffordd o roi gwybod i'n haelodau am ein perfformiad, er mwyn iddynt allu gweld drostynt eu hunain ein bod yn cyflawni ein nodau. Aethom ati i greu 'Cerdyn Sgorio Cytbwys' – dogfen gryno a oedd yn dangos ein perfformiad mewn nifer o feysydd allweddol, ac yn cymharu'r perfformiad hwnnw â'r blynyddoedd blaenorol. Rydym am fod yn gwbl agored a thryloyw gyda'n haelodau. Mae'r ddogfen hon yn dangos a ydym yn gwella, ac yn cynnwys esboniad byr hefyd. Gallwch weld y wybodaeth yn y 'Datganiad Gwerth am Arian' – cofiwch daro golwg!

Yn dilyn nifer o grwpiau ffocws a gynhaliwyd gyda'n haelodau o bob rhan o'r Fwrdeistref ym mis Chwefror 2018, datblygwyd set newydd o 'Reolau Pwysig' i'w dilyn pan mae'n fater o Werth am Arian. Mae'r rheolau hyn yn seiliedig ar beth oedd bwysicaf ym marn ein haelodau, a beth roedden nhw'n awyddus i glywed amdanynt:

Mae'r darn hwn o waith yn dangos pa mor bwysig yw hi fod gan ein haelodau lais. Aethom ati i drafod â'n haelodau i gael gwybod beth oedd bwysicaf iddyn nhw. Rydym yn awyddus i barhau i rannu'r wybodaeth hon er mwyn i bawb allu gweld sut rydym yn sicrhau Gwerth am Arian.

Rydym hefyd wedi bod yn gwneud darn o waith yn ymwneud â 'gwerth cymdeithasol' – y pethau sy'n cael eu hystyried yn bwysig o safbwynt y rheini y mae gwaith Cartrefi Cymoedd Merthyr yn effeithio arnynt. Felly rydym wedi bod wrthi'n brysur yn mynd o un lle i'r llall yn sgwrsio am hyn gyda'r tenantiaid. Byddwn yn gweithio ar y darn cychwynnol hwn o waith yn 2019/20, ac yn rhannu ein canfyddiadau maes o law.

Rheolau Pwysig

Cadw tenantiaid yn ddiogel



iechyd a diogelwch; mynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol; creu mannau amddiffynadwy

Diogelu'r amgylchedd



gweithgareddau ailgylchu; mynd i'r afael â thipio anghyfreithlon; mesurau effeithlonrwydd ynni i denantiaid; gerddi cymunedol a phrosiectau gwyrdd

Adolygu ein prif gontractau bob 3 blynedd



Trin staff a thenantiaid yn deg



asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb yng nghyswllt polisiau; bwlch cyflog rhwng y rhywiau; gweithgareddau cydraddoldeb ac amrywiaeth

Buddsoddi yn yr economi leol



defnyddio busnesau, mentrau cymdeithasol a chontractwyr lleol

Gosod rhenti fforddiadwy



cael cydbwysedd rhwng beth mae'r tenant yn gallu ei fforddio a gofynion Cartrefi Cymoedd Merthyr

Datblygu gyrfaedd/cynllunio ar gyfer olyniaeth



hyfforddiant i weithwyr ddatblygu eu sgiliau; lleoliadau gwaith; prentisiaethau a gwella cyflogadwyedd



Gosod Cyllidebau

Bob blwyddyn, bydd angen i'r Bwrdd gymeradwyo cyllideb yn unol â chynllun busnes y sefydliad. Eleni, cynhaliwyd sesiwn gyda phanel a oedd yn cynnwys y Tîm Rheoli Gweithredol, cynrychiolwyr o'r Corff Democrataidd, a chynrychiolydd Bwrdd, i ar graffu ar unrhyw gynnydd neu arbedion (dros £3,000) yng nghyllidebau'r adrannau. Buom hefyd yn edrych ar gyllideb y Rhaglen Gyfalaf. Nid tasg hawdd yw gosod cyllideb, ond cawsom gyfle i ofyn cwestiynau a dylanwadu ar y cyllidebau a osodwyd.

Cydraddoldeb ac Amrywiaeth

Rydym wedi gweithio gyda'r Grŵp Cydraddoldeb ac Amrywiaeth eleni i'w helpu gyda'u prosiect ar gyfer Dyfarniad QED. Petaem yn llwyddo i ennill dyfarniad QED (Dyfarniad mewn Ansawdd, Cydraddoldeb ac Amrywiaeth) Tai Pawb, byddai hyn yn dangos pa mor bwysig yw cydraddoldeb ac amrywiaeth i ni, ac yn cydnabod ein hymrwymiad di-dor. Mae tri o'n cynrychiolwyr yn eistedd ar y panel, ac rydym wedi cefnogi'r grŵp i fynd drwy ddau gam y dyfarniad, a oedd yn cynnwys asesiad manwl o'n harferion a'n perfformiad ym maes cydraddoldeb ac amrywiaeth. Y gobaith yw y byddwn yn cael y dyfarniad hwn ym mis Mai, ac rydym yn ffyddiog y bydd y canlyniad yn llwyddiannus.

Cyfraniad yr Aelodau

Dyfarnodd ein Panel Grantiau (sy'n cynnwys aelodau o blith tenantiaid a gweithwyr) dros £30,000 mewn grantiau i helpu grwpiau cymunedol i ddarparu gweithgareddau, prosiectau a gwasanaethau ym Merthyr Tudful.





Elusen yr Aelodau

Cymdeithas Alzheimer's Cymru oedd Elusen y Flwyddyn yr Aelodau ar gyfer 2018/19. Buom yn gweithio gyda'r elusen hon yn ystod y flwyddyn ac yn cynnal amrywiol ddigwyddiadau codi arian, gan gynnwys cwisiau amser cinio, swïps, gwerthu cacennau bach a thaith gerdded nodedig o Aberfan i Ferthyr Tudful. Bu'r Côr Alzheimer's lleol yn perfformio yng Nghyfarfod Blyneddol yr Aelodau ym mis Medi 2018, ac yn ogystal â chael ein diddanu, gyda'n gilydd fe wnaethom godi arian ac ymwybyddiaeth. Rydym yn falch o ddweud bod llawer o aelodau wedi cymryd rhan yn ystod y flwyddyn!

Llwyddwyd i chwalu'r targed o £2,000 – a chodi £4,700! Roedd casglu'r swm hwn yn golygu llawer iawn o ymdrech, felly da iawn bawb!

Dyweddodd Cheryl George, Swyddog Codi Arian yn y Gymuned Cymdeithas Alzheimer's Cymru: "Ein nod yw gwneud yn siŵr nad oes neb yn gorfod wynebu dementia ar ei ben ei hun. I sicrhau hyn, rydym wedi creu gwasanaeth newydd arloesol o'r enw 'Dementia Connect', a fydd yn gwneud yn siŵr bod pobl yn cael y gefnogaeth briodol yn y ffordd briodol. Bydd y swm anhygoel o £4,700 y mae aelodau

Cartrefi Cymoedd Merthyr wedi'i gasglu yn golygu y bydd ein Cyngorwyr Dementia arbenigol a'n gwirfoddolwyr cymwys ar gael i ddarparu cyngor a gwybodaeth berthnasol, dros y ffôn neu wyneb yn wyneb, gan helpu pobl yn yr ardal sy'n byw gyda dementia i ail-afael yn eu bywyd a bod yn fwy annibynnol am fwy o amser."

Byddwn yn parhau i weithio mewn partneriaeth â Chymdeithas Alzheimer's Cymru.



**Llwyddom i godi
cyfanswm o £4,700**

Ym mis Mawrth 2019, yn dilyn pleidlais gan yr Aelodau, penderfynwyd mai Elusen y Flwyddyn 2019/20 fydd Cymorth Cancer Merthyr Tudful. Edrychwn ymlaen at weithio gyda'r elusen hon yn ystod y flwyddyn nesaf.



Cynnydd wrth gyflawni'r Strategaeth Aelodaeth

Ym mis Medi 2016, fe wnaethom lunio Strategaeth Aelodaeth i gefnogi ein datblygiad fel sefydliad cydfuddiannol. Mae'r Strategaeth yn cyflwyno ein nodau ar gyfer datblygu aelodaeth weithgar, amrywiol a chynrychiadol. Mae'n amlinellu sut byddwn yn cynyddu nifer yr aelodau, a sut byddwn yn gwneud yn siŵr ein bod yn cyfathrebu'n effeithiol gydag aelodau ac yn ymgysylltu â nhw er mwyn iddynt allu chwarae rhan weithredol yn y sefydliad.

Ni sy'n gyfrifol am fonitro cynnydd wrth gyflawni'r Strategaeth Aelodaeth – dyma'r diweddaraf ar gyfer 2018/19. Byddwn yn gosod Strategaeth newydd yn 2019/20.



Nod #1

Datblygu a chynnal nifer yr aelodau i sicrhau bod Cartrefi Cymoedd Merthyr yn gorff sy'n wirioneddol wedi'i berchenogi gan ei aelodau, a chyflawni targed twf blynyddol o 10% o un flwyddyn i'r llall am y tair blynedd gyntaf. Bydd hyn yn sicrhau bod yr aelodaeth yn gynrychiadol o'r cymunedau y mae'r sefydliad yn eu gwasanaethu.

Amcan	Sylwadau	Ydym ni wedi cydymffurfio?
1. Cyrraedd y targed blynyddol o sicrhau cynnydd o 10% yn yr aelodaeth o un flwyddyn i'r llall, am 3 blynedd	Rydym wedi cynyddu ein haelodaeth ymhellach – 13% yn ystod 2018/19.	😊
2. Cymryd camau i sicrhau bod yr aelodaeth yn adlewyrchu amrywiaeth y cymunedau y mae Cartrefi Cymoedd Merthyr yn eu gwasanaethu	Ar hyn o bryd, mae gennym gydbwysedd eithaf da wrth edrych ar y ffactorau rydym wedi bod yn eu mesur, ond nid oes cynrychiolaeth ddigonol ym mhob maes, ac mae gennym gynllun i wella hyn.	😞
3. Datblygu proses syml a hygyrch ar gyfer dod yn aelod	Mae ein ffurflen gais yn syml ac yn hawdd ei llenwi, ac mae hi ar gael ar-lein ac fel copi caled.	😊
4. Cynnal cronfa ddata aelodaeth gywir sy'n cwrdd â'r gofynion statudol ac yn helpu i ddatblygu aelodaeth	Mae gennym Gofrestr Aelodaeth (gofyniad statudol) a chronfa ddata aelodaeth.	😊

Nod #2

Cyfathrebu’n effeithiol ag aelodau, darpar aelodau, a rhanddeiliaid eraill

Amcan	Sylwadau	Ydym ni wedi cydymffurfio?
1. Hyrwyddo aelodaeth a gwaith y sefydliad	Rydym yn hyrwyddo aelodaeth yn lleol ymhlith tenantiaid, gweithwyr a rhanddeiliaid eraill, ac yn genedlaethol mewn cyfarfodydd a chynadleddau ac ati. Rydym hefyd yn hyrwyddo’n ddigidol drwy’r wefan a’r cyfryngau cymdeithasol. Rydym wedi gwneud llawer o hyn yn 2018/19.	
2. Adnabod cyfleoedd pellach i’r aelodau a’r gymdeithas allu cyfathrebu â’i gilydd	Byddwn yn cael gwybod sut mae’r aelodau am i ni gysylltu â nhw ac yn defnyddio’r dull hwnnw. Rydym wedi gwneud defnydd effeithiol o’r cyfryngau cymdeithasol, gan gynnwys Facebook, i hybu sgysiau agored.	
3. Sicrhau bod ein dulliau o gyfathrebu’n ymgysylltu ag aelodau	Bydd pob aelod yn cael pecyn croeso wrth gofrestru. Byddwn yn gwneud yn siŵr bod yr aelodau’n cael gwybod am ddigwyddiadau, cyfarfodydd, swyddi gwag, penderfyniadau, ymgynghoriadau ac etholiadau drwy ddefnyddio gwahanol ddulliau, gan gynnwys targedu uniongyrchol, cylchlythyr i aelodau (Membership Matters), ein mewnrwyd (i’r gweithwyr), y wefan a’r cyfryngau cymdeithasol. Bydd y staff yn annog tenantiaid i fod yn aelodau pan fyddant yn dod i gysylltiad â nhw o ddydd i ddydd.	

Nod #3

Ymgysylltu â’r aelodau a’u hannog i gymryd rhan i sicrhau bod gan aelodau gyfle i ddylanwadu ar benderfyniadau

Amcan	Sylwadau	Ydym ni wedi cydymffurfio?
1. Nodi amrywiaeth o gyfleoedd i aelodau gyfrannu a lleisio’u barn	Eleni, mae’r aelodau wedi cael llais mewn materion fel penodi Prif Weithredwr, gwerth am arian, gwerth cymdeithasol, pleidleisio mewn etholiadau a dewis elusen y flwyddyn yr aelodau.	
2. Sicrhau ein bod yn deall ac yn cydnabod barn aelodau	Eleni, rydym wedi defnyddio adborth yr aelodau wrth wneud penderfyniadau pwysig, a bydd y rhain yn cael eu cynnwys yn ein strategaeth gorfforaethol newydd yn 2019/20 i helpu i bennu cyfeiriad ar gyfer y 3 blynedd nesaf.	
3. Annog mwy o aelodau i ymgeisio i gael eu hethol ar y Corff Democrataidd	Cafwyd ymgyrch weithredol ar gyfer etholiadau’r tenantiaid a’r gweithwyr yn 2018, ac rydym yn mynd ati’n frwd i annog aelodau i ystyried cyflwyno’u hunain yn 2019.	

Nod #4

Rhoi cyfleoedd i aelodau gael budd

Amcan	Sylwadau	Ydym ni wedi cydymffurfio?
1. Cael gwybod pa fathau o fuddion/cymhellion/cynlluniau disgownt mae'r aelodau'n awyddus i'w cael	Byddwn yn annog aelodau i gyflwyno syniadau er mwyn cael gwybod beth fydden nhw'n gallu cael budd ohono.	
2. Datblygu cyfleoedd i weithio mewn partneriaeth ag amrywiaeth o fusnesau ar draws y fwrdeistref	Rydym wedi edrych ar nifer y busnesau sy'n rhan o'n cynllun buddion i aelodau ac wedi cynyddu'r nifer hwnnw.	
3. Edrych ar sut mae'r cynllun buddion yn cael ei ddefnyddio	Cynhaliwyd adolygiad ym mis Ionawr 2019. Roedd y rhan fwyaf o fusnesau'n fodlon parhau â'n cynllun.	

